

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Mae **gofal** a **chymorth** yng **Nghymru** yn newid

## Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn rhoi mwy o lais i chi yn eich gwasanaethau.

### Rwy'n **ofalwr**, beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Hyd yn oed os ydw i'n berthynas, yn ffrind neu'n gymydog, rwy'n cael fy nghydnabod fel gofalwr.

Nid oes uchafswm nac isafswm oedran i gael cydnabyddiaeth fel gofalwr.

Rwy'n cael fy nghydnabod fel gofalwr heb orfod profi fy mod yn darparu swm sylweddol o ofal yn rheolaidd.

Gofynnir i mi beth sy'n bwysig i mi. Mae gen i lais cryf wrth benderfynu beth sydd ei angen arnaf i sicrhau fy llesiant.

---

Mae gen i'r un hawl i gael fy asesu am gymorth â'r person rwy'n gofalu amdano.

Mae'r asesiad yn edrych ar yr hyn rwy'n gallu ei wneud, yr hyn rwy'n gallu ei wneud gyda chymorth ffrindiau a theulu, ac yna'n trefnu cymorth i mi gyda'r hyn nad ydw i'n gallu ei wneud.

Os yw'r asesiad yn cadarnhau bod gen i 'anghenion cymwys', mae gen i hawl i gael cynllun cymorth personol sy'n nodi beth fydd yr awdurdod lleol yn ei wneud i ddiwallu fy anghenion.

---

Os oes angen cymorth arnaf i godi fy llais, bydd rhywun yn siarad ar fy rhan.

---

Mae gen i fynediad hawdd at wybodaeth a chyngor.

---

Os oes angen cymorth ffurfiol arnaf, bydd fy anghenion unigol yn cael eu diwallu yn y ffordd orau i mi.

WG27296
© Hawlfraint y Goron 2016
OGL